

**OMBWDSMON
GWASANAETHAU
CYHOEDDUS CYMRU**

**CYFRIFON BLYNYDDOL
AM Y FLWYDDYN
YN DIWEDDU
31 MAWRTH 2010**

Cynnwys

	<u>Tudalen</u>
Adroddiad yr Ombwdsmon	2
Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu	13
Adroddiad ar Daliadau	14
Datganiad ar Reolaeth Fewnol	16
Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru	20
Crynodeb o'r Alldro o ran Adnoddau	22
Datganiad Costau Gweithredu	23
Datganiad Enillion a Cholledion Cydnabyddedig	23
Datganiad o Sefyllfa Ariannol	24
Datganiad o Llifoedd Arian	25
Datganiad o Ecwiti Trethdalwyr	26
Datganiad o Gostau Gweithredu yn ôl Nodau ac Amcanion	27
Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol	28

OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

CYFRIFON BLYNYDDOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2010

Adroddiad yr Ombwdsmon

HANES A CHEFNDIR STATUDOL

Dyma bedwerydd Cyfrifon Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Daeth y swyddfa i fodolaeth yn ffurfiol ar 1 Ebrill 2006 ar ôl i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 ddod i rym. Fe'm penodwyd yn ail Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus am gyfnod penodedig o saith mlynedd gan ddechrau ar 21 Ebrill 2008. Yn unol â pharagraff 18 Atodlen 1 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 mae gennyf gyfrifoldeb personol dros drefniadaeth, rheolaeth a staffio cyffredinol y Swyddfa ac am ei gweithdrefnau yng nghyswllt materion ariannol a materion eraill.

Er 1 Ebrill 2007, o ganlyniad i ddiwygiadau i'r Ddeddf yn tarddu o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae cyflog a chostau cyflogaeth cysylltiedig yr ombwdsmon yn gost uniongyrchol i Gronfa Gyfunol Cymru. Ar ben hynny, mae'n rhaid cyflwyno costau rhedeg y Swyddfa i Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'w hystyried erbyn 1 Tachwedd fan bellaf bob blwyddyn. Erbyn 22 Tachwedd, mae'n rhaid i'r Pwyllgor Cyllid ystyried yr amcangyfrif a'i roi gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, a hynny gydag unrhyw addasiadau sy'n briodol ym marn y Pwyllgor ar ôl ymgynghori ac ystyried unrhyw sylwadau a wnaed gennyf i. Mae'r broses hon yn debyg i'r un sy'n berthnasol i'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru a'i bwriad yw sicrhau annibyniaeth fy rôl.

NODAU AC AMCANION

Diben Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yw ymchwilio'n annibynnol ac yn ddiuedd i gwynion gan y cyhoedd am y ffordd y cawsant eu trin gan gorff cyhoeddus. Yr wyf yn disgwyl i gyrff cyhoeddus drin pobl yn deg, yn ystyriol ac yn effeithlon. Os byddaf yn cymeradwyo cwyn, byddaf yn argymhell modd priodol o wneud iawn. Mae gennyf hefyd rôl bwysig i ymchwilio i gwynion bod aelodau awdurdodau lleol wedi torri'r Cod Ymddygiad.

Yn ystod y flwyddyn, ceisiais gyfrannu at ddatblygu gwasanaethau cyhoeddus rhagorol yng Nghymru drwy sicrhau bod darparwyr gwasanaethau'n parhau i werthfawrogi cwynion a dysgu ohonynt.

- (a) Codi ymwybyddiaeth am ein gwasanaeth er mwyn i bobl ddeall yr hyn yr ydym yn ei wneud ac er mwyn i bawb sydd angen y gwasanaeth ei dderbyn a'i ddefnyddio;
- (b) Cael trefn trin cwynion o safon uchel, sy'n ystyried ac yn penderfynu ar gwynion yn drylwyr ond yn gymesur, ac yn cyfleu penderfyniadau yn glir;
- (c) Gweithio gyda chyrrff cyhoeddus yng Nghymru er mwyn darparu gwell gwasanaethau cyhoeddus o ganlyniad i'r gwersi y gellir eu dysgu o'r cwynion yr ydym yn eu hymchwilio;
- (d) Dangos y defnyddir ein hadnoddau'n effeithlon ac yn effeithiol.

PRIF WEITHGAREDDAU

Dyma brif weithgareddau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru y mae'r cyfrifon hyn yn rhoi sylw iddynt:

- (a) ymchwilio i gwynion gan y cyhoedd am awdurdodau lleol (gan gynnwys cynghorau tref a chymuned) yng Nghymru;
- (b) ymchwilio i gwynion gan y cyhoedd am gyrff y GIG, ymarferwyr gwasanaeth iechyd teulu a darparwyr annibynnol Gwasanaethau GIG yng Nghymru;
- (c) ymchwilio i gwynion am Lywodraeth Cynulliad Cymru a chyrrff cyhoeddus a noddur gan Lywodraeth Cynulliad Cymru;
- (d) ymchwilio i gwynion yn erbyn landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, ac
- (e) ymchwilio i gwynion bod aelodau awdurdodau lleol (gan gynnwys cynghorau tref a chymuned) wedi torri cod ymddygiad eu hawdurdod ar gyfer aelodau.

ADRODDIAD RHEOLI

Yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 mae'r swyddfa'n cael ei hariannu drwy Gronfa Gyfunol Cymru. Rhaid ad-dalu unrhyw arian nad yw wedi'i wario i'r Gronfa honno bedair wythnos fan bellaf ar ôl cyflwyno copi ardystiedig o'r cyfrifon gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae hyn yn sicrhau mwy o reolaeth gan fod angen mynd ati'n effeithiol i reoli'r gyllideb ar sail arian ac ar sail adnoddau. Mae fy nghyflog i a'r costau cysylltiedig yn gost uniongyrchol i'r gronfa gyfunol, a chânt eu gweinyddu drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Costau cyflogaeth o £2.24 miliwn sy'n cyfrif am y gwariant mwyaf o hyd. Roedd cost cael cyngor proffesiynol (yn arbennig cyngor arbenigol ar achosion iechyd) yn parhau i godi a daeth i gyfanswm o £314k. Er mwyn paratoi ar gyfer gwasanaethau ychwanegol, cafwyd prydles ar ran o ail lawr yr eiddo sy'n cael ei feddiannu ar hyn o bryd er 1 Mawrth 2010. Cynyddodd y diffyg yn y Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol o £570k i £850k. Er bod y farchnad stoc wedi gwella, disgyn wnaeth cyfradd adennill giltiau gan adael hyn yn gwaethygu'n gyffredinol. Rhoddodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru £3.26 miliwn i gyllido'r Swyddfa.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn anodd ac yn adeiladol. Mae'r gwaith craidd o ymchwilio i gwynion gan aelodau'r cyhoedd am wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac ymddygiad aelodau awdurdodau lleol yn ganolog i hyn. Mae nifer y cwynion wedi lefelu eleni, yn wahanol i bob blwyddyn arall ers sefydlu'r swyddfa. Ond mae llwyth gwaith y swyddfa'n parhau i fod yn uchel oherwydd y cynnydd yn nifer y cwynion iechyd ac am ymddygiad aelodau, sydd yn aml yn fwy cymhleth i'w hymchwilio.

Mewn blwyddyn lle mae hyder y cyhoedd mewn cynrychiolwyr etholedig wedi bod yn thema gyson, rwyf yn bryderus ynghylch y duedd hon. Ymgwymerwyd â'r gwaith o ddatblygu arweiniad i'r Cod Ymddygiad yn ystod y flwyddyn, i'w gyhoeddi ym mis Ebrill 2010. Gobeithiaf yn fawr y bydd cynghorwyr yn derbyn y cyngor a'r cyfarwyddyd a roddwyd ac y bydd cwynion yn y maes hwn yn disgyn yn y flwyddyn i ddod.

Eleni oedd y flwyddyn gyntaf o'n Cynllun Strategol tair blynedd a ddatblygwyd i wella'r gwasanaeth a gynigiwn ac a ystyriodd y pwysau ar y gwasanaeth ac a adlewyrchodd farn defnyddwyr y gwasanaeth. Roedd y cynllun yn rhagweld newid i'r ffordd yr ydym yn delio gyda chwynion. Rydym wedi ad-drefnu'r gwasanaeth i alluogi unigolion i gysylltu â ni dros y ffôn neu'r e-bost, yn hytrach na gofyn iddynt lenwi ffurflen. Dechreuodd ein

Tîm Cyngori ar Gwynion newydd weithio ym mis Ionawr 2010. Ein nod yw rhoi darlun cliriach i alwyr ynghylch sut y mae ein gwasanaeth yn gweithio a sut y gallwn ni eu helpu. Os yw'r gŵyn yn un na allwn ni ymdrin â hi oherwydd ei bod y tu allan i'n cylch gwaith, e.e. cwynion am yr heddlu, byddwn yn ceisio eu helpu i gael gafael ar y corff priodol. Rydym ni hefyd wedi symleiddio ein gwaith gydag amrywiol fesurau gan gynnwys cwblhau achosion llai cymhleth drwy lythyr yn hytrach na gorfod creu adroddiadau ymchwilio hir.

Rwy'n falch o weld bod yr arwyddion cynnar yn dangos bod y newidiadau yn cael yr effaith a ddymunir. Yn gyffredinol, bu i ni gynyddu'r nifer o achosion a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn 6% o'i gymharu â 2008/09. Gan mai yn ystod y chwarter olaf y cyflwynwyd y newidiadau, disgwyliaf welliannau pellach yn 2010/11.

Mae llwyddiannau'r flwyddyn a fu i'w gweld yn fanylach yn yr adroddiad blynyddol statudol ar gyfer 2009-10. Gellir cael rhagor o wybodaeth yn www.ombudsman-wales.org.uk.

TÂL

Gwelir manylion tâl a chostau cysylltiedig yr Ombwdsmon yn yr Adroddiad ar Daliadau.

RHWYMEDIGAETHAU PENSIWN

Cyflawnir y rhwymedigaethau pensiwn i weithwyr presennol a chyn-weithwyr drwy'r canlynol:

- (a) Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil;
- (b) Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir drwy Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (y Gronfa); ac
- (c) Y pensiynau a dalwyd yn uniongyrchol i gyn-Gomisiynwyr neu'u dibynyddion.

Mae manylion llawnach i'w gweld yn Nodyn 4 y Cyfrifon hyn.

POLISI CYFLOGAETH

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn recriwtio ar yr egwyddor o ddethol ar sail teilyngdod drwy gystadleuaeth deg ac agored ac mae'n ymroddedig i sicrhau cyfle cyfartal i bob aelod o staff. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru hefyd wedi ymrwymo i gydymffurfio â darpariaethau Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995, yn ogystal â diwallu gofynion statudol eraill.

SALWCH

Yn ystod y flwyddyn collwyd 7.9 diwrnod ar gyfartaledd ar gyfer pob cyflogai (7.4 diwrnod yn 2008-09). Mae hyn yn gyfystyr â 3.1% o'r holl ddiwrnodau gwaith (2.9% yn 2008-09). Roedd y gwahaniaeth hwn o ganlyniad i ddau achos o salwch tymor hir.

Gan fod y swyddfa'n fach nis datgelir y mathau o salwch oherwydd y byddai modd gwybod pwy yw'r unigolion o'r wybodaeth honno. Mae'r swyddfa wedi ymrwymo i iechyd a lles ei staff ac mae ganddi bolisi cynhwysfawr ar absenoldeb oherwydd salwch.

TALU CYFLENWYR

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi ymrwymo i gydymffurfio â Rheoliadau Hwyr-daliad Dyledion Masnachol 2002. Y polisi talu yw y telir anfonebau yn unol ag amodau contract y cytunwyd arnynt, neu, lle nad oes amodau o'r fath, o fewn 30 diwrnod i fod wedi derbyn nwyddau a gwasanaethau neu gyflwyno anfoneb ddilys amdanynt, pa bynnag un sydd ddiweddaraf. Yn ystod 2009-10 talwyd 99% o anfonebau yn unol â'r polisi hwn (o'i gymharu â 98% yn 2008-09).

CYNALIADWYEDD

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi ymrwymo i arferion amgylcheddol da. Nodir enghreifftiau o sut y mae'n dilyn stiwardiaeth amgylcheddol dda isod.

- a) **Defnyddio ynni.** Fel un o nifer o denantiaid mewn bloc o swyddfeydd bychan a modern, nid yw'n bosib cael rheolaeth lawn dros y cyfleusterau gwres a golau.

Fodd bynnag, mae yno gyfnewidyddion gwres effeithlon iawn a reolir â thermostat ac o ran amser.

- b) **Defnyddio cerbydau.** Nid yw'r swyddfa'n gweithredu unrhyw gerbydau, ond mae arni angen defnyddio cerbydau wedi'u llogi ar gyfer teithiau hirach er mwyn sicrhau'r effeithlonrwydd gorau.
- c) **Cludiant Cyhoeddus.** Anogir staff i ddefnyddio cludiant cyhoeddus pan fo hynny'n briodol.
- d) **Rheoli papur.** Anogir staff i asesu a oes angen copi papur ac i argraffu ar ddwy ochr y dudalen pan fo hynny'n bosib. Mae'n bosib cael gweld gwybodaeth drwy ddefnyddio mewnrwyd y swyddfa, syn golygu nad oes angen systemau dosbarthu papur.
- e) **Gwaredu Gwastraff.** Mae gweithdrefnau ar waith i ailgylchu gwydr, caniau metel, poteli plastig, batris a phapur. Gwaredir papur drwy ddefnyddio cyfleusterau ailgylchu gwastraff cyfrinachol oherwydd y ddyletswydd i gadw cyfrinachedd yn ei ddeddfwriaeth alluogi.

LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Fel deiliad swydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yr wyf yn gweithredu fel Corfforaeth Unigol. Yn ogystal â hynny, fe'm penodwyd gan y Trysorlys yn Swyddog Cyfrifyddu'r cronfeydd cyhoeddus ac yn y cyswllt hwn y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ymddiried ynof i gyflawni fy swyddogaethau.

PWYLLGOR ARCHWILIO

Aelodaeth a Chylch Gorchwyl

Mae'r Pwyllgor Archwilio'n dal i gael ei gadeirio gan Laurie Pavelin CBE FCA ac mae'n rhoi cefnogaeth sylweddol gyda'i brofiad helaeth o reolaeth ariannol a chyfrifyddu yn y sector cyhoeddus. Cynyddwyd annibyniaeth y Pwyllgor drwy benodi'r Athro Margaret Griffiths yn dilyn proses recriwtio agored. Yn dilyn y penodiad hwn, ymddiswyddodd

Elizabeth Thomas, Cynghorydd Cyfreithiol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o'r Pwyllgor.

Cafwyd diwrnod o hyfforddiant cyflwyno ar gyfer yr Athro Griffiths gyda Chadeirydd y Pwyllgor, y Swyddog Cyfrifyddu a'r aelodau staff priodol er mwyn cael dealltwriaeth o rôl a gwaith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Hefyd, mynychodd yr Athro Griffiths ddiwrnod o hyfforddiant ar Ymarfer Gorau i Bwyllgorau Archwilio yn y Llywodraeth a drefnwyd gan yr Ysgol Lywodraethu Genedlaethol ym mis Tachwedd 2009.

Mae'r Ombwdsmon, Peter Tyndall, yn parhau i fod yn aelod o'r Pwyllgor yn ei rôl fel Swyddog Cyfrifyddu.

Mae pob aelod o'r Pwyllgor yn datgan unrhyw fuddiannau yn flynyddol ac eitem gyntaf ar raglen unrhyw gyfarfod yw datgan unrhyw fuddiant sy'n benodol i eitemau'r rhaglen ar gyfer y cyfarfod hwnnw.

Adolygodd y Pwyllgor Archwilio ei "Gylch Gorchwyl" ym mis Rhagfyr 2009 a daethpwyd i'r casgliad nad oedd angen unrhyw newidiadau pellach i'r rhai a gyflwynwyd yn ei adolygiad yn 2008-09. Y newidiadau allweddol a wnaed bryd hynny oedd y dylai'r Pwyllgor ystyried Cynllun Strategol tair blynedd yn y dyfodol, ynghyd â'r Cynllun Gweithredol a newid cyfansoddiad aelodaeth y Pwyllgor fel a nodwyd uchod.

Cyfarfodydd

Cynhaliwyd pum cyfarfod o'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn. Ym mhob cyfarfod, derbyniodd ac adolygodd y Pwyllgor y Gofrestr Risg, ynghyd â manylion unrhyw risgiau posib, boed y rheini'n newydd neu'n rhai a oedd wedi newid. Rhaid cyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor os bydd unrhyw dwyll neu golledion, gan gynnwys colledion o ran data, yn dod i'r amlwg. Ni ddaeth achos o'r fath i'r amlwg yn ystod blwyddyn ariannol 2009-10. Yn ogystal, cynghorir y Pwyllgor ynghylch unrhyw dendrau neu gymeradwyon cyflenwyr enwebedig dros £5,000 ac ynghylch unrhyw achosion o werthu asedau. Yn ystod y flwyddyn cafodd y Pwyllgor adroddiadau am unrhyw faterion priodol a oedd yn dod dan gochl ei gylch gorchwyl. Roedd hyn yn cynnwys papurau am: drefniadau pensiwn a'r gofynion FRS 17 ar gyfer adroddiadau pensiwn, goblygiadau cyflwyno Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol; Adroddiadau Cynaliadwyedd; y newidiadau sy'n deillio o'r prosiect Rheoli Disgwyliadau; a'r cynllun parhad busnes.

Roedd y datblygiadau mawr a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- a) Datblygu fformat cofrestr risg a phroses adrodd i gael gwell pwyslais ar yr adolygiad rheoli a chyfraniad y Pwyllgor;
- b) Gwella'r broses cyfrifon blynyddol o ran cynnwys ac amser er mwyn sicrhau yr hwylusir yr archwiliad ac y cyhoeddir y cyfrifon yn ystod yr haf;
- c) Adrodd yn briodol i'r Pwyllgor am berfformiad yn erbyn y Cynllun Gweithredol yn ystod y flwyddyn.
- d) Dangos y defnyddir ein hadnoddau'n effeithlon ac yn effeithiol.

Archwilio Allanol a Mewnol

Cafodd y pwyllgor adroddiadau rheolaidd gan archwilwyr allanol a mewnol. Roedd gwaith RSM Tenon (RSM Bentley Jennison gynt) fel Archwilwyr Mewnol yn cael ei gynllunio ar sail asesiad cyffredinol o angen ac yn cael ei gyflawni drwy raglen flynyddol. Roedd eu hadroddiadau yn amlygu fframwaith rheolaeth fewnol foddhaol y sefydliad ac yn gwneud argymhellion ar gyfer gwella lle bo angen.

Ystyriodd y Pwyllgor y Cyfrifon Blynyddol, a oedd yn cynnwys y Datganiad ar Reolaeth Fewnol y swyddfa ar gyfer 2008-09 ynghyd ag Adroddiad yr Archwiliad Allanol ISA260 a'r Llythyr Rheoli gan Grant Thornton UK LLP sy'n gweithredu ar ran Swyddfa Archwilio Cymru. Mae gan Archwilwyr Mewnol ac Allanol yr hawl i godi unrhyw fater drwy bolisi mynediad agored i'r Cadeirydd a drwy'r hawl i ddwyn unrhyw fater i sylw'r Pwyllgor, os byddant yn teimlo bod hynny'n briodol. Drwy adolygu rhaglenni'r Archwilwyr Allanol a'r Archwilwyr Mewnol, sicrhaodd y Pwyllgor eu bod yn cydweithredu'n effeithiol gyda'i gilydd.

Prosesau monitro

Ym mhob cyfarfod, rhoddir gwybod i'r Pwyllgor am y cynnydd a wnaed wrth roi argymhellion yr Archwiliad Allanol a'r Archwiliad Mewnol ar waith. Hefyd, rhoddir gwybod i'r Pwyllgor am unrhyw faterion sy'n disgwyl sylw ym mhob cyfarfod. Rhoddwyd copi o Adroddiad Blynyddol 2008-09 i'r Pwyllgor.

Asesiad cyffredinol

Ymgymerir â'r adolygiad blynyddol i sicrhau bod gwaith y Pwyllgor Archwilio yn parhau i gydymffurfio â'r Egwyddorion Arferion Da a nodir yn Llawlyfr Pwyllgorau Archwilio Trysorlys EM. Mae'r Pwyllgor wedi medru darparu sicrwydd i gefnogi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn effeithiol i gydymffurfio â'i gyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu.

RHOI GWYBOD AM ACHOSION SY'N YMWNEUD Â DATA PERSONOL

Mae Swyddfa'r Cabinet wedi cyhoeddi canllawiau ar roi gwybod am unrhyw achos o golli data personol a warchodwyd, datgelu hynny heb awdurdod ac unrhyw achos o gael gwared ar ddata personol a warchodwyd mewn modd anniogel. Y ddyletswydd yw adrodd ynghylch y canlynol:

- Manylion unrhyw achosion sy'n ymwneud â data personol yr adroddwyd yn eu cylch wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod y flwyddyn ariannol;
- Achosion wedi'u cofnodi sy'n ymwneud â data personol a warchodwyd nas adroddwyd yn ffurfiol yn eu cylch wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod y flwyddyn ariannol; ac
- Unrhyw achosion sy'n ymwneud â data personol a warchodwyd yn y blynyddoedd ariannol blaenorol.

Gallaf adrodd nad wyf yn ymwybodol o unrhyw ddigwyddiadau a oedd angen rhoi gwybod amdanynt yn 2009-10. Gellir gweld polisi diogelwch data'r sefydliad ar y wefan www.ombudsman-wales.org.uk.

CYFARWYDDYD CYFRIFON

Dan y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyflwynwyd gan Drysorlys EM dyddiedig 21 Rhagfyr 2006, roedd yn ofynnol i mi baratoi cyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol yn diweddu 31 Mawrth 2010 yn unol ag egwyddorion cyfrifyddu a gofynion datgelu'r argraffiad o *Financial Reporting Manual* y Llywodraeth, a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, a oedd mewn grym ar gyfer 2009-10.

Y flwyddyn adrodd 2009-10 yw blwyddyn gyntaf mabwysiadu Safonau Adroddiadau Rhyngwladol a dyddiad y newid yw 1 Ebrill 2008. Mae ffigyrau 2009-10 a 2008-09 yn unol â'r safonau hynny.

Paratowyd y cyfrifon hyn er mwyn:

(a) rhoi darlun teg a chywir o'r sefyllfa ar 31 Mawrth 2010, ac o'r alldro net o ran adnoddau, yr adnoddau a ddefnyddiwyd i gyflawni amcanion, enillion a cholledion cydnabyddedig a'r llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben bryd hynny; a

(b) datgelu gwybodaeth am unrhyw wariant neu incwm sylweddol na chafodd ei ddefnyddio i'r pwrpas y bwriadwyd iddo gael ei ddefnyddio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu drafodion sylweddol nad oeddynt yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

ARCHWILWYR

Archwilydd Cyffredinol Cymru yw Archwilydd Allanol cyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fel y nodwyd ym mharagraff 7 Atodlen 1 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Ar ôl ymgynghori â'r Swyddfa hon, penododd Swyddfa Archwilio Cymru Grant Thornton UK LLP i wneud y gwaith ar eu rhan er mai gan yr Archwilydd Cyffredinol y mae'r cyfrifoldeb cyffredinol o hyd. Cost archwiliad 2009-10 oedd £16.6k. Hefyd, cafwyd costau o £2k yn ychwanegol ar gyfer y gwaith o gwblhau archwiliad 2008-09 yn ogystal â £1.5k ar gyfer gwaith paratoi i weithredu Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol. Mae hyn o'i gymharu â chostau o £17.4k a gafwyd yn 2008-09.

Hyd y gwn i, yr wyf wedi cymryd pob cam y dylwn fod wedi'u cymryd i dynnu sylw'r archwilwyr at unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae gennyf gytundeb lefel gwasanaeth ar wahân gyda Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer darparu cyngor sy'n ymwneud ag adnoddau dynol. Talwyd £1k (2008-09 £3k) i Swyddfa Archwilio Cymru yn unol â'r cytundeb hwnnw.

Y DYFODOL

Mae'r swyddfa hefyd wedi bod yn gweithio ar ddwy fenter newydd yn ystod y flwyddyn. Y gyntaf yw cyflwyno gwasanaeth cyfeirio cwynion newydd i Gymru i helpu'r bobl hynny sydd â chwyn i'w wneud ynghylch gwasanaeth cyhoeddus ond nad ydynt yn gwybod i bwy y dylent gwyno na sut i fynd ati. Gobeithir y bydd hyn yn cael ei lansio yn gynnar yn 2011. Yr ail fenter oedd datblygu system gwyno syml, gyffredin i'w mabwysiadu gan ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Yr wyf wedi cadeirio Grŵp Cwynion Cymru sy'n cynnwys aelodau o bob rhan o'r sector cyhoeddus, sy'n disgwyl cyflwyno cyngor i Brif Weinidog Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Medi 2010. Byddai proses gyffredin yn cynnig nifer o fanteision, gan ei gwneud yn haws i bobl gwyno, yn haws rheoli cwynion am wasanaethau ar y cyd ac yn ei gwneud yn haws dysgu gwersi ehangach am wasanaethau a thrin cwynion.

Disgwylir gwybodaeth am y newidiadau arfaethedig a ddaw ar ôl i'r Llywodraeth adolygu trefniadau pensiwn y sector cyhoeddus. Gan fod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn rhan o dri threfniant pensiwn, gall unrhyw newid gael effaith ar drefniadau ariannu'r swyddfa yn y dyfodol.

DIGWYDDIADAU AR ÔL CAU'R FANTOLEN

Nid oes newidiadau i adrodd yn eu cylch.

Peter Tyndall

Swyddog Cyfrifyddu

24 Awst 2010

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG CYFRIFYDDU

O dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, mae'n rhaid i mi baratoi cyfrifon adnoddau ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n nodi manylion yr adnoddau a gaffaelwyd, y rhai a ddelir o hyd neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn a'r adnoddau a wariwyd gan y swyddfa yn ystod y flwyddyn ar y ffurf ac ar y sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Paratwir y cyfrifon adnoddau ar sail gronol a rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfaoedd busnes Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'i alldro net o ran adnoddau, yr adnoddau a wariwyd ar amcanion, incwm a gwariant cydnabyddedig a'r llifoedd arian am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, fel y Swyddog Cyfrifyddu, mae'n ofynnol i mi gydymffurfio â gofynion *Financial Reporting Manual* y Llywodraeth ac yn enwedig:

- cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a'r gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, a defnyddio polisiau cyfrifyddu priodol yn gyson;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol, fel a nodir yn *Financial Reporting Manual* y Llywodraeth, a dadlennu ac esbonio unrhyw wryiadau yn y cyfrifon; a
- pharatoi'r cyfrifon ar sail busnes byw.

Mae fy nghyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu'n cynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a chysondeb arian cyhoeddus Ombwdsmon Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru, cadw trefn briodol ar gofnodion a diogelu asedau'r swyddfa a memorandwm y Swyddogion Cyfrifyddu a ddefnyddiwyd gan Drysorlys EM ac a gyhoeddwyd yn "Rheoli Arian Cyhoeddus" fel y'u nodir yn Neddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005.

ADRODDIAD AR DALIADAU

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Mae darpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn sicrhau y caf fy nhalu gan Gronfa Gyfunol Cymru, ynghyd â'r costau cysylltiedig sy'n ymwneud ag yswiriant gwladol a chostau fy mhensiwn. Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yr wyf yn cael tâl ar lefel gyfwerth â Grŵp 5 y Raddfa Cyflog Barnwrol. Mae'r costau hyn wedi'u cynnwys yn nodyn 5 dan Costau Gweinyddol Eraill Gwasanaethau Sefydlog y Gronfa Gyfunol. Mae tâl y Cyfarwyddwyr wedi'i osod ar 70% o'm cyflog er 1 Tachwedd 2008. Mae'r tabl isod yn nodi manylion tâl aelodau'r Uwch Dîm Rheoli yn ystod blwyddyn 2009-10.

Enw	Dyddiad penodi a thelerau'r contract	2009-10 Cyflog £000	2009-10 Buddion Ymarferol £	2008-09 Cyflog £000	2008-09 Buddion Ymarferol £
Peter Tyndall	21/04/2008. Cyfnod penodol hyd at 20 Ebrill 2015	135-140	Dim	125-130	Dim
Elizabeth Thomas	01/01/2004 Contract Parhaol	95-100	Dim	75-80	Dim
Andrew Walsh	01/01/2004 Contract Parhaol	95-100	Dim	75-80	Dim

* Mae hawliau pensiwn y rhai a enwir uchod wedi'i nodi isod:

Enw	Pensiwn cronedig yn 60 oed ar 31 Mawrth 2010 £000	Cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn blynyddol £000	CETV ar 31 ^{ain} Mawrth 2010 £000	CETV ar 31 ^{ain} Mawrth 2009 £000	Cynnydd gwirioneddol mewn CETV £000
Peter Tyndall	5.0-7.5	2.5-5.0	81	36	37
Elizabeth Thomas	42.5-45.0	0-2.5	806	732	26
Andrew Walsh	10.0-12.5	0-2.5	230	188	29

Mae'r ffigurau pensiwn a welir yn y tabl uchod yn dangos yr hawliadau llawn. Darperir gwybodaeth ategol yn y Nodiadau isod.

Pwyllgor Archwilio

* Yn ystod y flwyddyn, talwyd taliad heb bensiwn o £2975 (2008-09 £2338) i Mr Pavelin fel cadeirydd annibynnol y Pwyllgor Archwilio, yn seiliedig ar gyfradd ddyddiol. Talwyd £1250 i'r Athro Margaret Griffiths am ei gwaith fel aelod o'r Pwyllgor Archwilio unwaith eto yn seiliedig ar gyfradd ddyddiol heb bensiwn.

* Eitemau yn amodol ar archwiliad

Nodiadau

Trefniadau pensiwn

Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir y buddion pensiwn hyn dan drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian (CETV) yw gwerth cyfalafedig buddion y cynllun pensiwn a gronwyd gan aelod ar adeg benodol, wedi ei asesu gan actiwari. Y buddion y pennir eu gwerth yw buddion cronodig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol sydd i'w dalu o'r cynllun i ŵr neu wraig. Taliad yw CETV a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i bensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i'w aelodaeth gyflawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae datgelu yn berthnasol iddi. Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall a drosglwyddwyd gan yr unigolyn i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronwyd lle prynodd y gweithiwr flynyddoedd ychwanegol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun o'i boced ei hun. Cyfrifir CETV yn unol â'r canllawiau a'r fframwaith a gynnigir gan Sefydliad a Chyfadrannau yr Actiwariaid.

Y cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hwn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr i bob pwrpas. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn sydd wedi cronni o ganlyniad i chwyddiant, y cyfraniadau sydd wedi eu talu gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall), ac mae'n defnyddio ffactorau prisiau cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Buddion ymarferol

Mae gwerth ariannol buddion ymarferol yn cynnwys unrhyw wariant a wynebwyd ac a gafodd ei drin fel tâl trethadwy gan Gyllid a Thollau EM. Ni chafwyd gwariant o'r fath.

DATGANIAD AR REOLAETH FEWNOL

Cwmpas y Cyfrifoldeb

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, yr wyf yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni pwrpas Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fel y diffinnir mewn statud ac yn ei nodau ac amcanion strategol, gan hefyd ddiogelu arian ac asedau cyhoeddus yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a ddyrannwyd i mi yn "Rheoli Arian Cyhoeddus".

Yr wyf yn annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ond yn atebol i'w Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus o ran defnyddio adnoddau y sicrheir eu bod ar gael i gefnogi fy swyddogaethau statudol. Wrth benderfynu ar lefel yr adnoddau sydd ar gael i'r sefydliad, mae Pwyllgor Cyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried cynigion y gyllideb yn unol â'r hyn a nodir yn Neddff Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005.

Pwrpas y system rheolaeth fewnol

Mae'r system rheolaeth fewnol wedi ei dyfeisio i reoli risg i raddau rhesymol ac nid i ddileu pob risg o fethu cyflawni polisiâu, nodau ac amcanion; felly, dim ond sicrwydd rhesymol, ac nid absoliwt, o effeithiolrwydd y gall ei gynnig. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a ddyfeisiwyd i ganfod a blaenoriaethu unrhyw risg i gyflawni fy mholisiâu, nodau ac amcanion, i werthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu, a'u heffaith pe bai hynny'n digwydd, ac i'w rheoli'n effeithiol, yn effeithlon ac yn ddarbodus. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bod mewn grym o ran Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2010, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r cyfrifon hyn, ac mae'n cydymffurfio â chyfarwyddyd y Trysorlys.

Y gallu i ddelio â risg

Yr wyf yn parhau i hybu'r trefniadau ar gyfer rheolaeth fewnol gadarn er mwyn sicrhau bod y Swyddfa'n meddu ar y gallu i ganfod, i asesu ac i reoli risg yn effeithiol. I ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn, yr wyf yn cael cymorth gan ddau gyfarwyddwr yr wyf wedi dirprwyo rhai o'm cyfrifoldebau iddynt. Yn ogystal, y Tîm Rheoli a gadeirir gennyf sydd

â'r cyfrifoldeb dros oruchwylio rheoli risg. Yr wyf yn fodlon bod y systemau sydd ar waith yn canfod y risgiau posib yn fuan ac yn caniatáu, drwy reolaeth weithredol, i gamau priodol gael eu cymryd er mwyn lleihau i'r eithaf unrhyw effaith andwyol ar y Swyddfa.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn dal i fynd ati'n rheolaidd i adolygu pa mor agored i risg yw'r sefydliad. Yn fy adroddiad, sy'n rhan o'r ddogfen hon, ceir adolygiad o waith y Pwyllgor Archwilio. Diwygiwyd y cylch gorchwyl yn ystod y flwyddyn er mwyn ystyried fy Nghynllun Strategol a'i weithrediad. Ar ôl adolygiad blynyddol o waith y Pwyllgor Archwilio, ni ystyriwyd bod angen gwneud unrhyw newidiadau pellach i'r cylch gorchwyl diwygiedig. Cryfhawyd aelodaeth y Pwyllgor Archwilio drwy benodi aelod annibynnol arall, yr Athro Margaret Griffiths, yn lle Elizabeth Thomas, sy'n gweithio fel Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol yn fy Swyddfa i. Yr wyf wedi parhau i elwa o brofiad sylweddol y cadeirydd, Mr Laurie Pavelin CBE FCA, mewn rheoli ariannol yn y sector cyhoeddus.

Fel sy'n ofynnol gan "Rheoli Arian Cyhoeddus", yr wyf yn cael cymorth gan y Cynghorydd Ariannol sydd, fel cyfrifydd cymwys, yn cyflawni cyfrifoldebau'r cyfarwyddwr cyllid proffesiynol, fel y nodir yn y ddogfen honno.

Y fframwaith risg a rheolaeth

Er mwyn sicrhau bod prosesau priodol ar waith rwyf wedi cael cymorth sylweddol gan y Pwyllgor Archwilio a chan RSM Tenon (RSM Bentley Jennison gynt) fel yr Archwilwyr Mewnol. Mae cwmpas eu gwaith yn sicrhau bod y prosesau a'r gweithdrefnau priodol ar waith ac yn gweithio'n effeithiol. Mae enw da a hygrededd y Swyddfa'n allweddol i'w llwyddiant wrth annog cwynion a sefydliadau sector cyhoeddus i dderbyn yr adroddiadau a gyflwynir. Mae datblygiadau i systemau a gweithdrefnau i wella a chyflymu'r dull o ymdrin â chwynion wedi'u rhoi ar waith yn ystod y flwyddyn ac maent yn rhoi gwell pwyslais ar gynnal enw da a hygrededd.

Mae Archwilwyr Mewnol yn adolygu'r fframwaith llywodraethu corfforaethol bob blwyddyn.

Un risg gorfforaethol bwysig sy'n parhau'n amlwg iawn yw Diogelwch Gwybodaeth. Mae'r Swyddfa hon wastad wedi cynnal lefel uchel o ddiogelwch oherwydd y rhwymedigaethau a geir yn adran 26 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 ynghylch peidio â datgelu gwybodaeth ac eithrio'r hyn a nodir yn benodol.

Mae'r polisi ar ddiogelwch gwybodaeth wedi cael ei ddiwygio ac wedi bod yn destun adolygiad Archwiliad Mewnol.

Dyma fesurau'r fframwaith risg a rheolaeth sydd ar waith:

- (a) mae gan y sefydliad broses gynllunio i werthuso cynlluniau, targedau a pherfformiad yn y gorffennol; mae cynlluniau a thargedau ar gyfer y dyfodol, fel y nodwyd yn y Cynllun Strategol ar gyfer 2009-10, wedi'u pennu ac, yn dilyn adolygiad, wedi cael eu hymgorffori yn y cynllun newydd ar gyfer 2010-11 hyd at 2012-13. Mae hyn yn sicrhau bod nodau ac amcanion y Swyddfa yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.
- (b) cynnal proses asesu risg sy'n golygu mapio meysydd risg allweddol wrth iddynt effeithio ar gyflawni amcanion y sefydliad; a
- (c) sicrhau bod cynllun parhad busnes ar gael, a fydd yn cael ei adolygu a'i brofi yn rheolaidd i alluogi proses adfer gam wrth gam o ddigwyddiadau a fyddai'n amharu ar ein gallu i weithredu.

Adolygu effeithiolrwydd

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, yr wyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol. Mae fy adolygiad ar effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol yn seiliedig ar waith yr archwilwyr mewnol a'r Cyfarwyddwyr sy'n fy nghynorthwyo gyda'r cyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, ac ar sylwadau a gafwyd gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Nodwyd yn adroddiad blynyddol yr Archwilydd Mewnol i mi "Mae gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru brosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu digonol ac effeithiol er mwyn rheoli'r gwaith o gyflawni amcanion y sefydliad."

Fe'm cynghorwyd ynghylch goblygiadau canlyniadau fy adolygiad o effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol gan y Pwyllgor Archwilio ac mae cynllun ar waith i roi sylw i wendidau a sicrhau bod y system yn cael ei gwella'n barhaus. Caiff y cynllun ei fonitro gan y Pwyllgor Archwilio drwy ystyried yn rheolaidd adroddiad sy'n nodi'r camau a gymerwyd ar faterion a godwyd gan yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol. Mae'r archwilwyr mewnol hefyd yn cynnal adolygiadau achlysurol o'r camau a gymerwyd i roi argymhellion a dderbyniwyd ar waith, tra mae'r archwilwyr allanol yn adolygu unrhyw faterion a godwyd mewn blynyddoedd ariannol dilynol.

Ar sail y gwaith archwilio mewnol am y deuddeg mis a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010, daeth yr Archwilydd Mewnol i'r casgliad bod gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru brosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu digonol ac effeithiol er mwyn rheoli'r gwaith o gyflawni ei amcanion.

Problemau Sylweddol o ran Rheolaeth Fewnol

Gallaf adrodd nad oedd gwendidau sylweddol yn system reolaeth fewnol y Swyddfa yn 2009-10 a effeithiodd ar allu'r Swyddfa i gyflawni ei pholisïau, ei nodau a'i hamcanion.

Peter Tyndall
Swyddog Cyfrifyddu

24 Awst 2010

Tystysgrif ac Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol dros Gymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2010 o dan baragraff 17 (2) atodlen 1 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) (2005). Mae'r rhain yn cynnwys y Crynodeb o'r Alldro o ran Adnoddau, y Datganiadau Costau Gweithredu a'r Datganiad Enillion a Cholledion Cydnabyddedig, y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lifoedd Arian a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r polisiau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Yr wyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Daliadau a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel gwybodaeth a archwiliwyd.

Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd, y naill a'r llall

Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol, yr Adroddiad ar Daliadau, a'r datganiadau ariannol yn unol â pharagraff 17(2) atodlen 1 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) (2005) a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru parthed hynny, ac am sicrhau cysondeb trafodion ariannol. Mae'r cyfrifoldebau hyn wedi'u hamlinellu yn y Datganiad ar Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad ar daliadau sydd i'w archwilio yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoleiddio perthnasol, ac â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon).

Rhoddaf i chi fy marn ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac a yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Daliadau a archwilir wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) (2005) a chyfarwyddiadau parthed honno gan Weinidogion Cymru. Rhoddaf i chi fy marn ynghylch a yw'r wybodaeth, syn cynnwys y sylwebaeth ar reolaeth a roddwyd yn yr Adroddiad Blynyddol yn gyson â'r datganiadau ariannol. Adroddaf i chi hefyd ynghylch a yw'r gwariant a'r incwm, ym mhob mater o bwys, wedi cael eu defnyddio at y dibenion y'u bwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Yn ogystal, adroddaf i chi os nad yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn fy marn i, wedi cadw cofnodion cyfrifyddu cywir, os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae arnaf eu hangen ar gyfer fy archwiliad, neu os nad yw gwybodaeth sy'n ofynnol gan Drysorlys Ei Mawrhydi ynghylch taliadau a thrafodion eraill wedi cael ei datgelu.

Yr wyf yn adolygu i weld a yw'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol yn adlewyrchu bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cydymffurfio â chanllawiau Trysorlys EM, a byddaf yn adrodd os nad ydyw. Nid oes rhaid i mi ystyried a yw'r datganiad hwn yn cynnwys pob risg a rheolaeth, na llunio barn am effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru na'i weithdrefnau risg a rheolaeth.

Darllenaf yr wybodaeth arall sydd yn yr Adroddiad Blynyddol, ac ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Mae'r wybodaeth arall hon yn cynnwys Adroddiad yr Ombwdsmon a'r rhan o'r Adroddiad ar Daliadau nas archwiliwyd. Yr wyf yn ystyried y goblygiadau i'm hadroddiad os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau o bwys yn y datganiadau ariannol. Nid yw fy nghyfrifoldebau yn ymestyn i unrhyw wybodaeth arall.

Sail barn yr archwilydd

Yr wyf wedi cynnal fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y Deyrnas Unedig ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae fy archwiliad yn cynnwys edrych yn fanwl, ar sail prawf, ar dystiolaeth sy'n berthnasol i symiau, datgeliadau a chysondeb y trafodion ariannol yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Daliadau a archwilir. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon sylweddol a'r penderfyniadau a wnaed gan y Swyddog Cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifyddu yn fwyaf priodol i amgylchiadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a ddefnyddir hwy yn gyson ac a ddatgelir hwy yn ddigonol.

Cynlluniais a chynhaliais fy archwiliad mewn modd a oedd yn sicrhau fy mod yn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau yr oeddwn yn eu hystyried yn angenrheidiol i gael dystiolaeth ddigonol, a hynny er mwyn cael sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol na'r rhan o'r Adroddiad ar Daliadau a archwilir yn cynnwys unrhyw gamddatganiad o bwys, pa un a achoswyd hynny drwy gamgymeriad neu dwyll, a bod y gwariant a'r incwm ym mhob modd o bwys wedi cael eu defnyddio at y dibenion y bwriadwyd hwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth ffurfio fy marn, yr wyf hefyd wedi gwerthuso a yw'r wybodaeth a gyflwynir yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Daliadau a archwilir, yn gyffredinol, wedi'u cyflwyno'n ddigonol.

Barn

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg, yn unol â Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) (2005) a'r cyfarwyddiadau a wnaed parthed hi gan Weinidogion Cymru, o sefyllfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar 31 Mawrth 2010, ac o'r gofyniad net o ran arian parod, yr alldro net o ran adnoddau, y costau gweithredu net, y costau gweithredu a ddefnyddiwyd i gyflawni amcanion, yr enillion a cholledion cydnabyddedig a'r llifoedd arian am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- mae'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Daliadau a archwilir wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) (2005) a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed parthed honno; ac
- mae'r wybodaeth sy'n cynnwys y sylwadau ar reolaeth yn adroddiad yr Ombwdsmon, a geir yn yr Adroddiad Blyneddol, yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Y farn ynghylch Cysondeb

Yn fy marn i mae'r gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio at y dibenion y'u bwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mhob ffordd berthnasol, ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w cynnig ynglŷn â'r datganiadau ariannol hyn.

Gillian Body
Archwilydd Cyffredinol Cymru
25 Awst 2010

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Datganiadau Ariannol 2009-10

CRYNODEB O'R ALLDRO O RAN ADNODDAU

am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2010

	2009-10			Alldro			Cyfanswm yr alldro net o'i gymharu â'r arbediad (gormodedd) a amcangyfrifwyd	2008-09
	Amcangyfrif Diwygiedig							
	Gwariant Gros	Incwm	Cyfanswm Net	Gwariant Gros	Incwm	Cyfanswm Net		Ffigurau alldro'r flwyddyn flaenorol wedi'i ailddatgan
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Costau Gweinyddol	3298	(19)	3279	3460	(9)	3451		3139
Llai Gwasanaethau Cronfa Gyfunol Cymru a rennir				191		191		186
Cyfanswm Adnoddau	3298	(19)	3279	3269	(9)	3260	19	2953
Gofynion Arian Parod Net Nodyn 3			3256			3275		2996

Incwm anweithredol a derbyniadau nad ydynt yn cael eu cyfrif yn incwm gweithredol

	Gwariant Gros	Incwm	Cyfanswm Net	Gwariant Gros	Incwm	Cyfanswm Net	Cyfanswm yr alldro net o'i gymharu â'r arbediad/ (gormodedd) a amcangyfrifwyd	Ffigurau alldro'r flwyddyn flaenorol wedi'i ailddatgan
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	an £000
Gwerthiant asedau sefydlog							-	(2)

Mae'r nodiadau ar dudalennau 28 i 47 yn rhan o'r cyfrifon hyn

Mae ffigurau cymharol 2008-09 wedi'u hailddatgan yn unol â Safonau

Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol

DATGANIAD COSTAU GWEITHREDU

am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2010

	Sylwer	2009-10	2008-09 wedi'i ailddatgan
		£000	£000
Costau gweinyddol:			
Costau staff	4	2235	2035
Costau gweinyddol eraill heb fod yn rhai staff	5	1225	1109
Costau Gweinyddol Gros		3460	3144
Incwm Gweithredol	6	(9)	(5)
Costau Gweinyddol Net		3451	3139
COSTAU GWEITHREDU NET ac ALLDRO NET O RAN ADNODDAU		3451	3139

Mae'r holl weithgareddau a ddechreuwyd o fewn y cyfnod yn parhau.

Datganiad Enillion a Cholledion Cydnabyddedig

	Sylwer	2010	2009
		£000	£000
Am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth			
(Colled) actiwaraid ar Gynllun Pensiwn	4	<u>(240)</u>	<u>(900)</u>
Cyfanswm (colledion) cydnabyddedig yn y flwyddyn		<u>(240)</u>	<u>(900)</u>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 28 i 47 yn rhan o'r cyfrifon hyn

Mae ffigyrau cymharol 2008-09 wedi'u hailddatgan yn unol â Safonau

Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol.

DATGANIAD O SEFYLLFA ARIANNOL*am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2010*

	Sylwer	2009-10	2008-09 wedi'i ailddatgan	1 Ebrill 2008 wedi'i ailddatgan
		£000	£000	£000
Asedau anghyfredol				
Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar	7	203	225	241
Asedau sefydlog anniriaethol	8	14	60	65
Symiau derbyniadwy sy'n dod yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	9	2	43	-
Cyfanswm asedau anghyfredol		219	328	306
Asedau Cyfredol				
Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	9	169	147	131
Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod	10	10	29	24
Cyfanswm asedau cyfredol		179	176	155
Cyfanswm asedau		398	504	461
Rhwymedigaethau cyfredol				
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	11	(102)	(113)	(113)
Cyfrif banc yn y coch		(5)	-	(10)
Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol	10	(107)	(113)	(123)
Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol		291	391	338
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn	11	(30)	(37)	(45)
Darpariaethau	12	(543)	(632)	(614)
		(573)	(669)	(659)
		(282)	(278)	(321)
Gwarged / (Diffyg) y Gronfa Bensiwn	4	(850)	(570)	290
Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau		(1132)	(848)	(31)
Ecwiti Trethdalwyr				
Cronfa Gyffredinol		(1132)	(848)	(31)

Ceir manylion am symudiadau'r Gronfa Gyffredinol yn y datganiad o Ecwiti Trethdalwyr ar dudalen 26. Mae'r nodiadau ar dudalennau 28 i 47 yn rhan o'r cyfrifon hyn

DATGANIAD O LIFOEDD ARIAN

am y flwyddyn yn diweddu 31.03.10

	Sylw er	2009-10 £000	2008-09 £000
All-lif arian net o weithgareddau gweithredu	16	(3239)	(2960)
Llif arian net o weithgareddau buddsoddi	17	(41)	(73)
Cyllid gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru	18	3256	3048
(Lleihad) Cynnydd mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod	18	(24)	15
Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ar gychwyn y cyfnod		29	14
Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod		5	29

Mae'r nodiadau ar dudalennau 28 i 47 yn rhan o'r cyfrifon hyn

DATGANIAD O ECWITI TRETHDALWYR

am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2010

	2009 -10 £000	2008 - 09 £000
Balans ar ddechrau blwyddyn	(811)	0
Effaith newidiadau o ganlyniad i fabwysiadu IFRS	(37)	(31)
Balans ar 1 Ebrill 2009	<u>(848)</u>	<u>(31)</u>
Newidiadau i ecwiti trethdalwyr		
Costau gweithredu net	(3451)	(3108)
Incwm anweithredol	-	2
Cyllid gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru	3256	3048
Yn ddyledus yn ôl i Gronfa Gyfunol Cymru		
-Arian	(5)	(29)
-Incwm anweithredol	-	(2)
Cost credyd cyfalaf	(35)	(14)
Gwasanaethau Cronfa Gyfunol Cymru a rennir	191	186
Diffyg yr actiwari	(240)	(900)
Cyfanswm yr incwm a'r costau cydnabyddedig ar gyfer 2009-10	<u>(284)</u>	<u>(817)</u>
Balans ar 31 Mawrth 2010	<u>(1132)</u>	<u>(848)</u>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 28 i 47 yn rhan o'r cyfrifon hyn

DATGANIAD O GOSTAU GWEITHREDU YN ÔL NODAU AC AMCANION

am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2010

Isod, amlinellir costau darparu gwasanaeth Ombwdsmon o'r radd flaenaf i Gymru.

Dyrannwyd i bob amcan fel a ganlyn:

- (a) Amcangyfrif o'r amser y mae staff wedi'i dreulio ar yr amcan
- (b) Dyraniad gwariant uniongyrchol
- (c) Dosrannu costau eraill pro rata i'r amcangyfrif o amser y staff

	2009-10			2008-09		
	Gros £000	Incwm £000	Net £000	Gros £000	Incwm £000	Net £000
Codi ymwybyddiaeth am ein gwasanaeth er mwyn i bobl ddeall yr hyn yr ydym yn ei wneud ac er mwyn i bawb sydd angen y gwasanaeth ei dderbyn a'i ddefnyddio	270		270	243		243
Cael trefn trin cwynion o safon uchel, sy'n ystyried ac yn penderfynu ar gwynion yn drylwyr ond yn gymesur, ac yn cyfleu penderfyniadau yn glir	2659	(9)	2650	2407		2407
Gweithio gyda chyrrff cyhoeddus yng Nghymru er mwyn darparu gwell gwasanaethau cyhoeddus o ganlyniad i'r gwersi y gellir eu dysgu o'r cwynion yr ydym yn eu hymchwilio	363		363	337		337
Dangos y defnyddir ein hadnoddau'n effeithlon ac yn effeithiol	168		168	157	(5)	152
Costau gweithredu net	3460	(9)	3451	3144	(5)	3139

Mae'r nodiadau ar dudalennau 28 i 47 yn rhan o'r cyfrifon hyn

Mae ffigyrau cymharol 2008-09 wedi'u hailddatgan yn unol â Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Datganiadau Ariannol 2009-10
Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol – ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth
2010

1. Datganiad ynghylch y Polisiâu Cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â *Financial Reporting Manual* y Llywodraeth (FRoM) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM sydd mewn grym ar gyfer 2009-10. Mae'r polisiâu cyfrifyddu sydd yn y llawlyfr hwn yn defnyddio Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel sydd wedi'u mabwysiadu neu eu dehongli ar gyfer y sector cyhoeddus. Lle mae'r llawlyfr yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y tybiwyd iddo fod yr un mwyaf priodol i amgylchiadau penodol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i bwrpas rhoi darlun gwir a theg. Disgrifir y polisiâu cyfrifyddu penodol a fabwysiadwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru isod. Fe'u defnyddiwyd yn gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyrir eu bod o bwys mewn perthynas â'r cyfrifon.

1.1 Confensiwn Cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn dan y confensiwn cost hanesyddol, gan ei addasu i ystyried unrhyw achos lle cafodd gwerth yr asedau sefydlog eu hailbrisio yn ôl eu gwerth i'r busnes drwy gyfeirio at eu costau cyfredol.

1.2 Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

Mae gwariant wedi'i gyfalafu lle disgwylir i'r asedau a brynwyd fod ag oes ddefnyddiol dros nifer o flynyddoedd a lle mae ei gost yn fwy na £1k. Dangosir asedau ar eu cost llai lwfans am ddibrisiad. Gall asedau sy'n costio llai na £1k gael eu cyfalafu ar yr amod eu bod yn rhai cyfalaf a'u bod yn rhan o gynllun mwy sydd â chyfanswm dros £1k. Ar sail adnabyddiaeth gychwynnol, mesurir asedau sefydlog ar sail eu cost gan gynnwys costau megis costau gosod, y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i fod yn rhai a ddefnyddiwyd i'w gweithredu ar gyfer y defnydd y bwriadwyd hwynt. Wrth adolygu costau'r asedau sefydlog a gaffaelwyd yn flaenorol a'r prisiau a dalwyd am yr eitemau newydd a gaffaelwyd yn ystod y flwyddyn, nid oes gwahaniaeth o bwys rhwng gwerth net hanesyddol yr asedau ar bapur a'u cost adnewyddu llai dibrisiad.

1.3 Dibrisiant

Mae asedau yn cael eu dibrisio yn ôl cyfraddau a gyfrifwyd i ddod â'u gwerth i lawr i sero neu, os yw'n briodol, i roi eu gwerth gweddilliol tybiedig ar sail llinell syth dros eu hoes ddefnyddiol dybiedig. Caiff asedau yn ystod y gwaith adeiladu eu dibrisio o'r pwynt y defnyddir yr ased gyntaf. Ac eithrio lle nodir hynny'n wahanol, tybir bod eu hoes fel a ganlyn:

Offer	10 mlynedd neu gyfnod y brydles os yw'n llai
Dodrefn a ffitiadau eraill	10 mlynedd neu gyfnod y brydles os yw'n llai ar gyfer ffitiadau
Cyfrifiaduron a chyfarpar eraill	3 i 10 mlynedd

1.4 **Asedau anniriaethol**

Mae trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol a brynwyd yn cael eu cyfalafu lle ceir gwariant o £1k neu fwy. Gall asedau anniriaethol sy'n costio llai na £1k gael eu cyfalafu ar yr amod eu bod yn rhai cyfalaf a bod cyfanswm eu gwerth dros £1k. Edrychir ar asedau anniriaethol yn flynyddol i weld a oes nam arnynt a chânt eu nodi yn ôl cost hanesyddol wedi'i amorteiddio. Caiff trwyddedau meddalwedd eu hamorteiddio dros y tymor byrrach yn y drwydded a'u hoes economaidd ddefnyddiol. Tybiwyd nad oedd angen adolygu eu hoes economaidd ddefnyddiol oherwydd y cynhaliwyd adolygiad llawn o'r system gwynion yn 2007-08 a bod yr adolygiad hwnnw'n cadarnhau y gellid eu defnyddio ymhellach am gyfnod o dair blynedd.

1.5 **Tâl Cyfalaf**

Mae credyd, sy'n adlewyrchu cost y cyfalaf a ddefnyddir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn cael ei gynnwys yn y costau gweithredu. Cyfrifir y tâl hwn yn ôl y gyfradd wirioneddol a bennir gan Drysorlys EM (3.5% ar hyn o bryd) ar sail swm cario cyfartalog yr holl asedau llai rhwymedigaethau, ac eithrio balansau arian parod ac arian i'w ildio i'r Gronfa Gyfunol.

1.6 **Treth ar Werth**

Nid yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi'i gofrestru ar gyfer TAW. Felly datgelir gwariant yn cynnwys TAW.

1.7 **Pensiynau**

Mae'r ymrwymadau pensiwn i weithwyr blaenorol a phresennol yn dod dan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, sy'n bennaf yn un anghyfrannol a heb ei ariannu; dan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir drwy Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (y Gronfa); a thrwy daliadau uniongyrchol i ddau Gomisiynydd blaenorol dros Weinyddiaeth Leol yng Nghymru ac i un buddiolwr sy'n dal yn fyw. Datgelir y manylion llawn yn y Nodiadau i'r Cyfrifon. Caiff costau darparu'r pensiynau hyn eu codi drwy'r Datganiad Costau Gweithredu.

1.8 **Costau gadael yn gynnar**

Lle mae'n ofynnol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru dalu costau buddion ychwanegol sy'n fwy na'r buddion arferol a delir dan y cynllun pensiwn priodol i weithwyr sy'n ymddeol yn gynnar, caiff y costau hyn eu cynnwys yn llawn ar y datganiad costau gweithredu pan fydd y rhwymedigaeth benodol yn codi.

1.9 **Prydlesi Gweithredu**

Gyda gwariant ar eiddo a brydlesir, nodir y gost o fewn y cyfnod yr achoswyd hi. Lledaenir costau cyfarpar ar gyfer prydlesau gweithredol yn gyfartal dros gyfnod y brydles.

1.10 **Costau Staff a Chostau Gweinyddol Eraill**

Mae'r holl gostau cyflog a chostau cysylltiedig ar gyfer staff Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi eu talu'n llawn o'r cyfrifon hyn.

Mae'r dulliau a ddefnyddir i ddyrannu costau wedi eu dyfeisio i roi'r adlewyrchiad mwyaf cywir o gostau rhedeg swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

Cymru. Mae'r sail dosrannu'n amcangyfrif o'r amser a dreulir ar amcanion y Swyddfa gan y staff, ac eithrio gwariant y gellir ei dalu'n uniongyrchol.

1.11 Incwm Gweithredol

Cyfrifir ar gyfer llog banc yn y flwyddyn y'u ceir. Credydir incwm arall i'r flwyddyn gyfrifyddu y gwneir y gwaith ynddi.

1.12 Incwm Anweithredol

Mae incwm anweithredol y mae'n rhaid ei ildio i Gronfa Gyfunol Cymru'n codi o werthiant asedau sefydlog.

1.13 Grantiau Llywodraeth

Cyfrifir grantiau Llywodraeth yn y flwyddyn y'u ceir.

1.14 Cyfnewid Arian Tramor

Mae trafodion busnes mewn arian tramor yn cael eu trosi'n sterling yn ôl y cyfraddau sydd mewn grym ar ddyddiadau'r trafodion.

1.15 Offerynnau Ariannol

Offeryn ariannol yw unrhyw gontract sy'n arwain at ased ariannol o un endid a rhwymedigaethau ariannol neu offeryn ecwiti o endid arall. Nid oes gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru unrhyw offerynnau ariannol cymhleth o dan y disgrifiad a ddarperir gan IAS 32. Yr offerynnau ariannol allweddol a ddelir yw symiau taladwy a derbyniadwy. Ystyrir y rhain yn fenthyciadau a symiau derbyniadwy yn unol ag IAS 39. Felly fe'u datgelir yn y cyfrifon fel costau amorteiddio.

1.16 Darpariaethau

Dyma'r symiau sydd ag amseru neu swm ansicr ar ddyddiad y fantolen ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r ymrwymadau. Pan fydd effaith gwerth arian amser yn sylweddol, caiff yr amcan lifoedd arian yr addaswyd eu risg eu disgowntio gan ddefnyddio'r gyfradd ddisgowntio a osodir gan Drysorlys EM.

1.17 Costau staff

Yn unol ag IAS 19, cydnabyddir buddiannau gweithwyr tymor byr, megis cyflogau, cyfraniadau nawdd cymdeithasol, gwyliau blynyddol â thâl ac absenoldeb salwch â thâl, yn ogystal â buddiannau anariannol ar gyfer gweithwyr cyflogedig, pan fydd gweithiwr wedi darparu gwasanaeth yn gyfnewid am y buddiannau hynny.

1.18 Adroddiad Rhannol

Ni ystyrir bod yna rannau gweithredu ar wahân i adrodd arnynt yn unol ag IFRS 8; fodd bynnag mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi dewis datgelu'r gwariant sy'n gysylltiedig â phedwar prif amcan y swyddfa hefyd. Ni adroddir ar y wybodaeth hon yn fewnol.

2. Mabwysiadu Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol am y tro cyntaf

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi mabwysiadu Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol er 1 Ebrill 2008. Nodir manylion effaith y newid hwn isod;

Cronfa Gyffredinol	£000
Ecwiti trethdalwyr ar 31 Mawrth 2008 o dan Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol (GAAP) yn y DU	(0)
Addasiadau ar gyfer: Gwyliau blynyddol nad ydynt wedi cael eu cymryd	(31)
Ecwiti trethdalwyr ar 1 Ebrill 2008 o dan Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS)	(31)
Costau gweithredu net ar gyfer 2008-09 o dan GAAP	3102
Addasiadau ar gyfer:	
symudiadau mewn gwyliau gyda thâl sydd wedi cronni 2008-09	37
Costau gweithredu net ar gyfer 2008-09 o dan IFRS	3139
Costau gweithredu net ar gyfer 2009-10 o dan GAAP	3439
Addasiadau ar gyfer:	
symudiadau mewn gwyliau gyda thâl sydd wedi cronni 2009-10	12
Costau gweithredu net ar gyfer 2009-10 o dan IFRS	3451

Nid oes gwahaniaeth yng nghysoniadau llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn 2008-09 fel yr adroddwyd ar GAAP y DU ac fel yr adroddwyd dan yr IFRS.

3. CYSONI ADNODDAU Â'R GOFYNION ARIAN PAROD NET

	Sylwer	2009-10 Amcangyfrif diwygiedig £000	2009-10 ffigurau alldro £000	Cyfanswm yr alldro net o'i gymharu â'r arbediad/(gormodedd) a amcangyfrifwyd £000	2008- 09 ffigurau alldro £000
Cyfanswm Adnoddau Net Alldro Datganiad Costau Gweithredu			3451		3139
Llai Gwasanaethau Cronfa Gyfunol Cymru a rennir			191		186
Net		3259	3260	(1)	2953
Caffael asedau sefydlog	7/8	20	42	(22)	75
Incwm anweithredol					(2)
Addasiadau croniadau:					
Eitemau heb fod yn rhai ariannol	4/5	(142)	(145)	3	(198)
Newidiadau cyfalaf gweithio ar wahân i arian parod		70	(1)	71	67
Defnyddio darpariaethau		(1)	79	(80)	71
Cyllido pensiynau	4	50	40	10	30
<i>Gofyniad net o ran arian Crynodeb o'r Alldro o ran Adnoddau</i>		3256	3275	(19)	2996

Ni welwyd gwahaniaeth sylweddol rhwng yr Amcangyfrif yn y Gofyniad Net o ran Arian a'r Alldro. Roedd y gwariant cyfalaf yn uwch na'r gyllideb er mwyn manteisio ar rai prisiau cystadleuol iawn.

4. Niferoedd a Chostau Staff

Yr oedd nifer cyfartalog y staff a gyflogwyd ar sail gyfwerth ag amser cyflawn (gan gynnwys uwch reolwyr) yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

	2009-10	2008-09
	Nifer	Nifer
Uwch reolwyr	3	3
Ymchwilio i gwynion	37	36
Staff Gwasanaethau Corfforaethol / Gweithredol	8	6
Cyfanswm	48	45

Dyma gyfanswm y costau cyflogi:

	2009-10	2008-09
	£000	£000
Staff parhaol		
Cyflogau	1690	1524
Costau Nawdd Cymdeithasol	134	116
Costau pensiwn eraill	343	372
Cyfanswm	2167	2012
Staff dros dro	60	23
Costau Nawdd Cymdeithasol	3	-
Costau pensiwn	5	-
Cyfanswm	68	23
Cyfanswm costau cyflogaeth	2235	2035

Mae costau staff dros dro yn cynnwys staff ar gontractau dros dro a staff asiantaeth.

Pensiynau

Mae dau gynllun pensiwn yn cael eu gweithredu ar ran y staff presennol. Ceir rhwymedigaeth barhaus i dalu pensiynau cyn-ombwdsmyrn o hyd.

(a) Prif Gynllun Pensiwn y Llywodraeth

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn gynllun buddion diffiniedig sawl cyflogwr nas ariennir, ond ni all Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sy'n sail iddo. Prisiwyd y cynllun ar 31 Mawrth 2007 gan Actiwari'r cynllun. Mae manylion ar gael yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil (www.civilservice-pensions.gov.uk).

Ar gyfer 2009-10, talwyd £310k o gyfraniadau'r cyflogwyr i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (2008-09 £280k) ar un o bedair cyfradd rhwng 16.7% a 24.3% o gyflog pensiynadwy, ar sail bandiau cyflog. Mae Actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd fel arfer ar ôl gwerthuso'r cynllun yn llawn. O 2010-11 ymlaen, bydd y cyfraddau yn aros yn yr ystod 16.7% i 24.3%. Mae'r cyfraddau cyfrannu wedi'u gosod i dalu costau'r buddion sy'n cronni yn ystod 2009-10 i'w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol, ac nid y buddion a delir yn ystod y cyfnod hwn i bobl sydd eisoes yn bensiynwyr.

Caiff gweithwyr ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sy'n bensiwn cyfranddeiliaid lle ceir cyfraniad gan y cyflogwr. Talwyd cyfraniadau'r cyflogwr o £6K (2008-09 £3k) i un neu ragor o'r panel o dri a benodwyd yn ddarparwyr pensiwn cyfranddeiliaid. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn seiliedig ar oedran, ac maent yn amrywio o 3% i 12.5% o dâl pensiynadwy. Mae'r cyflogwyr hefyd yn rhoi cyfraniad sy'n cyfateb i gyfraniadau'r gweithwyr o hyd at 3% o gyflog pensiynadwy. Yn ychwanegol, yr oedd cyfraniadau'r cyflogwr o £547 (2008-09 £162), 0.8% o dâl pensiynadwy, yn daladwy i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil er mwyn talu costau buddion cyfandaliad y gweithwyr hyn yn y dyfodol yn sgil marwolaeth mewn gwaith ac ymddeol oherwydd iechedy gwael.

Nid oedd unrhyw gyfraniadau'n daladwy nac wedi'u talu ymlaen llaw i ddarparwyr pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y fantolen.

(b) Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae'r datgeliadau isod yn gysylltiedig â rhwymedigaethau Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (y "Gronfa") sydd wedi'u cyllido, sy'n rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cymryd rhan yn y Gronfa sy'n darparu buddion diffiniedig, ar sail cyflog pensiynadwy terfynol aelodau.

Yn unol â Safon Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol, mae'n ofynnol datgelu gwybodaeth benodol sy'n ymwneud ag asedau, rhwymedigaethau, incwm a gwariant sy'n berthnasol i gynlluniau pensiwn.

Datgelu o dan IAS19 (buddion sy'n cael eu hariannu gan y CPLIL)

Tybiaethau Cynhaliwyd prisiad diweddaraf yr actiwari o rwymedigaethau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar 31 Mawrth 2007. Dyma'r prif dybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwariaid cymwysedig annibynnol, Hewitt Associates Limited, i ddiweddarau prisiad diweddaraf y Gronfa at ddibenion IAS19:

Prif dybiaethau ariannol (% y flwyddyn)

	31 Mawrth 2010	31 Mawrth 2009	31 Mawrth 2008
Cyfradd disgownt	5.5	6.7	6.8
Chwyddiant	3.9	3.3	3.7
Cyfradd cynnydd i bensiynau a delir*	3.9	3.3	3.7
Cyfradd cynnydd mewn pensiynau gohiriedig*	3.9	3.3	3.7
Cyfradd cynnydd cyffredinol mewn cyflogau*	5.4	4.8	5.2

*Goruwch unrhyw gynnydd Isafswm Pensiwn Gwarantedig a delir pan fo hynny'n briodol

**Hefyd, mae'r actiwariaid wedi caniatáu ar gyfer yr un graddfeydd cyflog hyrwyddol sy'n gysylltiedig ag oedran a ddefnyddiwyd ym mhrisiad yr actiwari o'r Cronfeydd ar 31 Mawrth 2007.

Prif dybiaethau demograffaid

Marwolaeth ar ôl ymdeol	31 Mawrth 2010	31 Mawrth 2009
<u>Dynion</u> Tabl sylfaenol (yn 2007)	PNMA00 gyda lwfans ar gyfer ffactorau gwella MC i 2007	PNMA00 gyda lwfans ar gyfer ffactorau gwella MC i 2007
Cyfradd yn uwch na'r tabl sylfaenol * (blynyddoedd)	0	0
Yn codi'n uwch na chyfraddau'r tabl sylfaenol **	125%	125%
Ffactorau gwella carfan (o 2007 ymlaen)	80% o LC	80% o LC
Isafswm sy'n sail i ffactorau gwella	1.25%	1.25%
Oes yn y dyfodol ar ôl 65 oed (yn 65 oed ar ddyddiad y cyfrifyddu)	21.2	21.1
Oes yn y dyfodol ar ôl 65 oed (yn 45 oed ar ddyddiad y cyfrifyddu)	23.5	23.4
<u>Merched</u> Tabl sylfaenol (yn 2007)	PNFA00 gyda lwfans ar gyfer ffactorau gwella MC i 2007	PNFA00 gyda lwfans ar gyfer ffactorau gwella MC i 2007
Cyfradd yn uwch na'r tabl sylfaenol * (blynyddoedd)	0	0
Yn codi'n uwch na chyfraddau'r tabl sylfaenol **	100%	100%
Ffactorau gwella carfan (o 2007 ymlaen)	60% o LC	60% o LC
Isafswm sy'n sail i ffactorau gwella	1.25%	1.25%
Oes yn y dyfodol ar ôl 65 oed (yn 65 oed ar ddyddiad y cyfrifyddu)	25.2	25.0
Oes yn y dyfodol ar ôl 65 oed (yn 45 oed ar ddyddiad y cyfrifyddu)	27.4	27.3

*Golyga cyfradd o x o flynyddoedd y tybir y bydd aelodau'r Gronfa'n dilyn patrwm y tabl sylfaenol am x o flynyddoedd yn hŷn na hwynt. Mae'r cyfraddau a ddangosir yn berthnasol i ymddeoliadau iechyd arferol.

**Mae'r ffactorau graddio a ddangosir yn berthnasol i'r ymddeoliadau iechyd arferol

	31 Mawrth 2010	31 Mawrth 2009
Cymudo	Tybiwyd bod pob aelod yn cyfnewid 50% o'r uchafswm a ganiateir o'u hawl pensiwn cyn 1 Ebrill 2008.	Tybiwyd bod pob aelod yn cyfnewid 50% o'r uchafswm a ganiateir o'u hawl pensiwn cyn 1 Ebrill 2008.
	Tybiwyd bod pob aelod yn cyfnewid 75% o'r uchafswm a ganiateir o'u hawl pensiwn ar ôl 31 Mawrth 2008.	Tybiwyd bod pob aelod yn cyfnewid 75% o'r uchafswm a ganiateir o'u hawl pensiwn ar ôl 31 Mawrth 2008.

Enillion disgwylidig ar asedau

Mae amcangyfrif rhaniad cyfartalog yr asedau ar gyfer y Gronfa yn gyffredinol (ar sail data a ddarparwyd gan Awdurdod Gweinyddu'r Gronfa) i'w weld yn y tabl isod. Dangosir hefyd y cyfraddau enillion tybiedig a fabwysiadwyd gan y cyflogwr at ddibenion IAS19.

	Cyfraddau enillion disgwylidig hirdymor ar 31 Mawrth 2010 (% y flwyddyn)*	Rhaniad yr asedau ar 31 Mawrth 2010 (% y flwyddyn)*	Cyfraddau enillion disgwylidig hirdymor ar 31 Mawrth 2009 (% y flwyddyn)*	Rhaniad yr asedau ar 31 Mawrth 2009 (% y flwyddyn)*	Cyfraddau enillion disgwylidig hirdymor ar 31 Mawrth 2008 (% y flwyddyn)*	Rhaniad yr asedau ar 31 Mawrth 2008 (% y flwyddyn)*
Ecwitiâu	8.0	73.5	7.0	67.6	7.6	71.0
Eiddo	8.5	4.1	6.0	4.6	6.6	5.6
Bondiau'r Llywodraeth	4.5	4.9	4.0	7.7	4.6	5.0
Bondiau Corfforaethol	5.5	12.5	5.8	12.8	6.8	13.5
Arian	0.7	0.9	1.6	2.1	6.0	4.9
Arall*	8.0	4.1	1.6	5.2	6.0	0.0
Cyfanswm	7.5	100.0	6.2	100.0	7.2	100.0

*Mae cyfraddau enillion disgwylidig cyffredinol asedau'r Gronfa yn gyfartaledd wedi'i bwysoli o'r holl gyfraddau enillion disgwylidig unigol ym mhob dosbarth o asedau, ac fe ddangosir hyn yn rhes olaf y tabl uchod.

** Mae daliadau eraill yn cynnwys cronfeydd rhagfantoli, daliadau arian cyfred, dyrannu asedau i'r dyfodol ac eraill. Mae Hewitt Associates Ltd. wedi tybio y byddant yn derbyn enillion yn unol ag ecwitiâu eleni.

Disgrifiad naratif o'r sail a ddefnyddiwyd i bennu'r enillion disgwylidig

Mae'r Actiwari ar ran Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru'n defnyddio dull o ddatblygu wrth benderfynu ar gyfradd yr enillion ar asedau'r Gronfa. Astudir marchnadoedd hanesyddol a thybir bod asedau mwy ansefydlog yn cynhyrchu mwy o enillion, yn unol ag egwyddorion y farchnad gyfalaf, a dderbynnir yn helaeth. Nodir cyfraddau enillion tybiedig ar

bob dosbarth o asedau yn y nodyn hwn. Yna ceir enillion disgwylidig cyffredinol yr asedau drwy gael cyfanswm y gyfradd enillion disgwylidig ar gyfer pob dosbarth o asedau dros ddyraniad gwirioneddol yr asedau ar gyfer y Gronfa ar 31 Mawrth 2010.

Cysoni'r statws noddedig â mantolen

	Amcangyfrif gwerth ar 31 Mawrth 2010 £M	Amcangyfrif gwerth ar 31 Mawrth 2009 £M	Amcangyfrif gwerth ar 31 Mawrth 2008 £M
Gwerth teg yr asedau	4.06	3.10	4.41
Gwerth cyfredol y rhwymedigaethau buddion diffiniedig sydd wedi'u hariannu	4.91	3.67	4.12
(Colledion) enillion actiwaraidd nas cydnabuwyd	0.00	0.00	0.00
Costau gwasanaeth yn y gorffennol nas cydnabuwyd	0.00	0.00	0.00
Asedau /(rhwymedigaethau) a gydnabuwyd ar y fantolen	(0.85)	(0.57)	0.29

Dadansoddiad o gostau Elw a Cholled

	Blwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2010 £M	Blwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2009 £M
Cost gyfredol y gwasanaeth	0.03	0.03
Cost y gwasanaeth yn y gorffennol	0.00	0.00
Costau llog	0.24	0.26
Enillion disgwylidig ar asedau	(0.19)	(0.30)
Cost terfynu	0.00	0.00
Cost setliad	0.00	0.00
Costau cydnabyddedig	0.08	(0.01)

Newidiadau i werth presennol y rhwymedigaethau buddion diffiniedig yn ystod y cyfnod cyfrifyddu

	Blwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2010 £M	Blwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2009 £M
Gwerth cyfredol agoriadol rhwymedigaethau buddion diffiniedig	3.67	4.12
Cost gyfredol y gwasanaeth	0.03	0.03
Costau llog	0.24	0.26
Cyfraniadau gan gyfranogwyr	0.01	0.01
Colledion / (enillion) actiwaraidd ar rhwymedigaethau*	1.10	(0.10)
Buddion net a dalwyd #	(0.14)	(0.65)
Cost y gwasanaeth yn y gorffennol	0.00	0.00
Cynnydd net yn y rhwymedigaethau o safbwynt caffael a gwerthu	0.00	0.00
Cwtogiadau	0.00	0.00
Setliadau	0.00	0.00
Gwerth cyfredol terfynol rhwymedigaeth buddion diffiniedig	4.91	3.67

* Yn cynnwys costau i dybiaethau'r actiwari.

Yn cynnwys llif arian net allan o'r Gronfa sy'n berthnasol i'r cyflogwr, ac eithrio cyfraniadau ac unrhyw gyfandaliadau a dalwyd am farwolaeth mewn gwaith, gan gynnwys bras lwfans ar gyfer cyfandaliadau am farwolaeth mewn gwaith disgwylidig.

Newidiadau i werth teg asedau yn ystod y cyfnod cyfrifyddu

	Blwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2010 £M	Blwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2009 £M
Gwerth teg agoriadol yr asedau	3.10	4.41
Enillion disgwylidig ar asedau	0.19	0.30
Enillion/(colledion) actiwaraid ar asedau	0.86	(1.00)
Cyfraniadau gan y cyflogwr	0.04	0.03
Cyfraniadau gan y cyfranogwyr	0.01	0.01
Buddion net a dalwyd #	(0.14)	(0.65)
Cynnydd net yn yr asedau o safbwynt gwerthu a chaffael	0.00	0.00
Setliadau	0.00	0.00
Gwerth teg terfynol yr asedau	4.06	3.10

Yn cynnwys llif arian net allan o'r Gronfa sy'n berthnasol i'r cyflogwr, ac eithrio cyfraniadau ac unrhyw gyfandaliadau a dalwyd am farwolaeth mewn gwaith, gan gynnwys bras lwfans ar gyfer cyfandaliadau am farwolaeth mewn gwaith disgwylidig.

Enillion gwirioneddol ar asedau

	Blwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2010 £M	Blwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2009 £M
Enillion disgwylidig ar asedau	0.19	0.30
Enillion/(colledion) actiwaraid ar asedau	0.86	(1.00)
Enillion gwirioneddol ar asedau	1.05	(0.70)

Dadansoddiad o'r swm a gydnabyddir yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr

	Blwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2010 £M	Blwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2009 £M
Cyfanswm (colledion) yn ôl yr actiwari	(0.24)	(0.90)
Cyfanswm (colled)	(0.24)	(0.90)

Hanes gwerth asedau, gwerth cyfredol rhwymedigaethau buddion diffiniedig a gweddill/diffyg

	Ar 31 Mawrth 2010 £M	Ar 31 Mawrth 2009 £M	Ar 31 Mawrth 2008 £M
Gwerth teg yr asedau	4.06	3.10	4.41
Gwerth cyfredol y rhwymedigaethau buddion diffiniedig	4.91	3.67	4.12
(Diffyg)/gweddill	(0.85)	(0.57)	0.29

Hanes o brofiad a cholledion

	Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2010	Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2009	Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2008
Enillion/(colledion) a brofwyd ar asedau <ul style="list-style-type: none">▪ Swm £M▪ Canran yr asedau	0.86 21.2%	(1.00) -32.3%	(0.44) -(10.05)
(Colledion)/enillion a brofwyd ar rwymedigaethau # <ul style="list-style-type: none">▪ Swm £M▪ Canran gwerth cyfredol y rhwymedigaethau	0.06 1.2%	(0.02) -0.5%	(0.02) -0.5%

Mae'r eitem hon yn cynnwys enillion/(colledion) yng nghyswllt profiadau rhwymedigaethau yn unig - ac nid yw'n cynnwys unrhyw newidiadau mewn rhwymedigaethau yng nghyswllt newidiadau i dybiaethau'r actiwari a ddefnyddiwyd.

Cyfraniadau ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2011

Amcangyfrifir y bydd cyfraniadau rheolaidd gan y cyflogwr i'r Gronfa ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2011 yn £0.04m. Ar ben hynny, mae'n bosib y bydd angen Cyfraniadau straen ar Gronfa.

(c) Pensiynau i gyn-Ombwdsmyrn

Gyda chytundeb Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn 1991, a chadarnhad dilynol gan Offeryn Statudol 1993 Rhif 1367, daeth Comisiynwyr Llywodraeth Leol yn gymwys i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Fodd bynnag, mae pensiynau'r tri Chomisiynydd Llywodraeth Leol blaenorol yn parhau'n gyfrifoldeb Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ac yn cael eu talu drwy'r datganiad costau gweithredu.

Mae'r pensiynau'n cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â'r Gorchymyn Cynyddu Pensiynau. Fodd bynnag, gan fod y cynnydd eleni yn sero, defnyddiwyd cyfartaledd y cynnydd yn y blynyddoedd ers i'r wybodaeth gael ei chynnwys yn y cyfrifon, sef 2.9%, i gyfrifo cyfanswm y rhwymedigaethau i'r dyfodol. Cyfanswm y taliadau yn 2009-10 oedd £75k (£71k yn 2008-09). Mae'r rhwymedigaethau sy'n codi o'r ymrwymiad i gyllido'r pensiynau hyn, ynghyd ag unrhyw bensiynau dibynyddion, wedi'u cyfrifo i fod yn £543k (2008-09 £628k). Cyflawnwyd y cyfrifiad i bennu'r rhwymedigaeth gyffredinol yn fewnol drwy ddefnyddio tablau disgwyliaid oes ar gyfer dynion a menywod yng Nghymru oddi ar wefan Adran Actiwari'r Llywodraeth. Defnyddiwyd cyfradd ddisgowntio o 3.5% (2008-09 3.5%) yn unol ag arweiniad y Trysorlys y dylid cynnwys disgownt ar holl rhwymedigaethau pensiwn. Dangosir manylion pellach dan symudiadau mewn darpariaethau (Nodyn 12).

5. Costau Gweinyddol heb fod yn rhai Staff

	2009-10	2008-09
	£000	£000
Rhenti o dan brydlesi gweithredu	179	188
Ffi Archwilwyr Allanol	20	17
Gwasanaethau eraill a ddarparwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a Grant Thornton	1	4
Gwasanaeth Ymgynghorol Proffesiynol	314	227
Costau eiddo eraill	92	81
Gwasanaethau cyfrifiadurol	67	67
Nwyddau, cyfarpar a gwasanaethau swyddfa	246	226
Teithio a chynhaliaeth	40	30
Gwasanaethau sefydlog y Gronfa Gyfunol (Cyflog a chostau cysylltiedig yr Ombwdsmon a delir o Gronfa Gyfunol Cymru)	191	186
Is-gyfanswm	1150	1026
Dibrisiant	61	59
Tâl amorteiddio	48	37
Colled wrth waredu	1	-
Darpariaeth ar gyfer ailaddurno	-	1
Cost credyd cyfalaf	(35)	(14)
Is-gyfanswm	75	83
Cyfanswm y Costau Gweinyddol Eraill	1225	1109

Mae'r cynnydd yn y ffioedd proffesiynol o ganlyniad i fwy o angen am gyngor arbenigol a'r cynnydd yn y cyngor cyfreithiol a ddefnyddiwyd gyda chwynion Cod ymddygiad.

6. Incwm Gweithredol

Mae'r incwm a dderbynnir yn codi o fuddsoddi cyllid dros ben yn y tymor byr a secondiad dros dro

	2009-10	2008-09
	£000	£000
Staff ar secondiad	9	-
Llog sydd i ddod i law	-	5
Cyfanswm yr incwm gweithredol	<u>9</u>	<u>5</u>

7. Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

	Offer	Cyfrifiaduron a chyfarpar eraill	Dodrefn a ffitiadau eraill	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000
Cost neu brisiad ar 1 Ebrill 2008	89	136	225	450
Ychwanegiadau	5	35	3	43
Gwerthiannau		(41)		(41)
Ar 31 Mawrth 2009	94	130	228	452
Cost neu brisiad ar 1 Ebrill 2009	94	130	228	452
Ychwanegiadau		26	14	40
Gwerthiannau		(7)		(7)
Ar 31 Mawrth 2010	94	149	242	485
Dibrisiant ar 1 Ebrill 2008	(32)	(91)	(86)	(209)
Cofnodwyd yn y flwyddyn	(11)	(27)	(21)	(59)
Gwerthiannau		41		41
Ar 31 Mawrth 2009	(43)	(77)	(107)	(227)
Dibrisiant Ar 1 Ebrill 2009	(43)	(77)	(107)	(227)
Cofnodwyd yn y flwyddyn	(10)	(28)	(23)	(61)
Gwerthiannau		6		6
Ar 31 Mawrth 2010	(53)	(99)	(130)	(282)
NBV ar 31 Mawrth 2010	41	50	112	203
NBV ar 31 Mawrth 2009	51	53	121	225
NBV 1 ^{af} Ebrill 2008	57	45	139	241

Ym marn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng gwerth llyfr net asedau yn ôl eu prisiau heddiw a'u prisiau yn y gorffennol.

8. Asedau anniriaethol

Mae'r Swyddfa'n parhau i ddefnyddio system gyfrifiadurol i fonitro cwynion, a pherchennog y system yn y pen draw yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban. Talodd y Swyddfa hon ffi drwyddedu er mwyn cael defnyddio'r system.

Ym marn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng gwerth llyfr net asedau yn ôl eu prisiau heddiw a'u prisiau yn y gorffennol.

	Meddalwedd wedi'i datblygu	Meddalwedd wedi'i phrynu	Cyfanswm
	£000	£000	£000
Cost neu Brisiad ar 1 Ebrill 2008	175	26	201
Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn	-	32	32
Ar 31 Mawrth 2009	175	58	233
Cost neu Brisiad ar 1 Ebrill 2009	175	58	233
Ychwanegiadau	-	2	2
Ar 31 Mawrth 2010	175	60	235
Amorteiddio ar 1 Ebrill 2008	110	26	136
Amorteiddio yn ystod y flwyddyn	21	16	37
Ar 31 Mawrth 2009	131	42	173
Amorteiddio ar 1 Ebrill 2009	131	42	173
Amorteiddio yn ystod y flwyddyn	38	10	48
Ar 31 Mawrth 2010	169	52	221
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2010	6	8	14
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2009	44	16	60
Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2008	65	0	65

9. Symiau derbyniadwy ac asedau eraill

	2009-10	2008-09	Fel yr oedd ar 1 ^{af} Ebrill 2008
	£000	£000	£000
Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn			
Blaendaliadau	2	43	-
Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn:			
Blaendaliadau	160	147	131
Dyledwyr masnach	9	-	-
	169	147	131
Cyfanswm	171	190	131

10 Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod

Rhaid dychwelyd unrhyw arian sydd yn y cyfrif ar ddiwedd y flwyddyn i Gronfa Gyfunol Cymru. Mae credydwr £5k (2008-09 £29K) wedi'i gynnwys yn y cyfrifon, fel balans net diwedd blwyddyn y cyfrifon banc a weithredir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ni waeth a yw'r cyfrif unigol mewn dyled neu gredyd, a swm y grant a dderbyniwyd ac a wrthbwywyd gan yr ad-daliad hwn. Mae'n ofynnol gwneud yr ad-daliad hwn i Gronfa Gyfunol Cymru yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

11. Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau eraill

	2009-10 £000	2008-09 £000	Ar 1 ^{af} Ebrill 2008 £000
Symiau sy'n daladwy mewn blwyddyn			
Symiau sy'n ddyledus i'r Casglwr Trethi	-	1	-
Gwyliau blynyddol nad ydynt wedi cael eu cymryd	49	37	31
Symiau sy'n ddyledus i'r Comisiynydd Seneddol	5	3	20
Cronfa Gyfunol Cymru – arian heb ei wario	5	29	14
incwm anweithredol	1	2	-
Symiau masnach taladwy	6	36	48
Croniadau	36	5	-
	102	113	113
Symiau sy'n daladwy mewn mwy na blwyddyn			
Gostyngiad gohiriedig ar rent	30	37	45
Cyfanswm	132	150	158

12. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

	2009-10		2008-9		Ar 1af Ebrill 2008
	Pensiynau i Gomisiynwyr Blaenorol	Costau Ailaddurno yn y dyfodol	Cyfanswm	Cyfanswm	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000	£000
Balans ar 1 Ebrill	628	4	632	614	606
Darpariaeth nad oes ei hangen mwyach	(10)	-	(10)	89	88
Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn	(75)	(4)	(79)	(71)	(80)
Balans ar 31 Mawrth	543	0	543	632	614

Mae'r lleihad yn y ddarpariaeth wedi codi o ganlyniad i'r ffaith nad oedd cynnydd yn daladwy mewn pensiynau. Mae codiadau mewn costau pensiwn yn y dyfodol ar sail

cyfartaledd y cynnydd blynyddol er 2004- 05, sef 2.9%. Mae'r gostyngiad hwn wedi'i osod yn erbyn cynnydd mewn disgwyliad oes yn rhannol ar sail cyfraddau disgwyliadau oes diweddaraf Cymru. Mae'r ffactor disgownt yn aros yn 3.5%.

Mae costau ailaddurno yn y dyfodol yn codi o rwymedigaeth i ailaddurno y tu mewn i'r adeiladau a brydlesir ym Mharc Bocam. Defnyddiwyd y ddarpariaeth oherwydd bodlonwyd y rhwymedigaeth yn ystod y flwyddyn.

13. Ymrwymïadau o dan Brydlesi Gweithredol

	2009-10		2008-09	
	Adeiladau	Arall	Adeiladau	Arall
	£000	£000	£000	£000
Ar 31 Mawrth 2010, yr oedd y Swyddfa wedi ymrwymo i wneud y taliadau canlynol yn ystod y flwyddyn nesaf yng nghyswllt prydlesi gweithredol a fyddai'n dod i ben:				
O fewn blwyddyn	-	7	-	-
Rhwng blwyddyn a dwy flynedd	-	5	-	-
Rhwng dwy a phum mlynedd	190		-	11
Ar ôl pum mlynedd		-	182	-
	190	12	182	11

14. Rhwymedigaethau wrth gefn

Nid oedd unrhyw rwymedigaethau wrth gefn ar 31 Mawrth 2010 (2008-09 Dim).

15. Ymrwymïadau cyfalaf

Nid oedd unrhyw ymrwymïadau cyfalaf ar 31 Mawrth 2010 (2008-09 Dim)

16. Cysoni'r costau gweithredu â'r llifoedd arian gweithredu

	Nodiad au	2009-10	2008-09
		£000	£000
Cost gweithredu net		(3451)	(3139)
Addasu ar gyfer eitemau anariannol	4,5	145	161
(Lleihad / Cynnydd) mewn symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill	9	19	(59)
Cynnydd/(Lleihad) mewn symiau masnach a symiau taladwy eraill	11	(18)	23
Llai symudiad mewn credydwyr sy'n ymwneud ag eitemau nad ydynt yn pasio trwy'r OCS		(6)	(31)
Taliad ar gyfer y diffyg yn y gronfa bensynau	4	(40)	(30)
Defnyddio darpariaethau	12	(79)	(71)
Gwasanaethau Cronfa Gyfunol Cymru a rennir		191	186
All-lif arian net o weithgareddau gweithredu		(3239)	(2960)

17. Gwariant Cyfalaf a buddsoddiad ariannol

	2009-10	2008-09
	£000	£000
Ychwanegiadau asedau sefydlog diriaethol	(40)	(43)
Gwerthiannau asedau sefydlog diriaethol	1	2
Ychwanegiadau asedau sefydlog anniriaethol	(2)	(32)
All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi	<u>(41)</u>	<u>(73)</u>

18. **Cysoni'r gofyniad arian parod net â'r cynnydd/(lleihad) mewn arian parod**

	2009-10 £000	2008-09 £000
Gofynion Arian Parod Net:		
Gweithgareddau gweithredu	(3239)	(2960)
Gwariant Cyfalaf	(41)	(73)
	<hr/>	<hr/>
	(3280)	(3033)
Cyllid gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru	3256	3048
	<hr/>	<hr/>
Cynnydd mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod	(24)	15
	<hr/>	<hr/>

19. **Offerynnau ariannol**

Oherwydd natur ddifasnach y rhan fwyaf o'i weithgareddau, a'r modd y mae cyrff y Llywodraeth yn cael eu hariannu, nid yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn agored i'r un faint o risg ariannol ag a wynebir gan rai cyrff busnes. Nid oes gan y Swyddfa unrhyw bwerau i fenthyg arian, ond gall fuddsoddi cyllid dros ben dros dro. Cynhyrchir asedau a rhwymedigaethau ariannol gan weithgareddau gweithredu o ddydd i ddydd ac ni thbyir eu bod yn newid y risgiau a wynebir gan y Swyddfa wrth gyflawni ei gweithgareddau.

20. **Trafodion Busnes Partïon Perthynol**

Caiff Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ei arwain gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ac fe'i sefydlwyd o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol ar y Llywodraeth ac mae trefniadau cyllido'r Swyddfa wedi'u trefnu yn y fath fodd i sicrhau y diogelir annibyniaeth y swyddfa. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi cael nifer o drafodion o bwys gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a chyda Swyddfa'r Ombwdsmon Seneddol. Hefyd, mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi cael nifer fach o drafodion gydag Adrannau eraill o'r Llywodraeth a chyrrff eraill y llywodraeth ganolog.

Penodwyd Peter Tyndall, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn gadeirydd Cymdeithas Ombwdsmy'n Prydain ac Iwerddon er 1 Ebrill 2010. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru'n aelod o'r Gymdeithas hon.